Cymynrodd Bywyd

Rhodd fydd yn parhau ar gyfer eich eglwys

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# Llythyr Dymuniadau ar y cyd â'ch Ewyllys

## Llythyr anffurfiol yw Llythyr Dymuniadau sy'n ategu eich Ewyllys. Gall fod yn ddogfen ddefnyddiol dros ben i gynorthwyo'ch ysgutorion a'ch ymddiriedolwyr i sicrhau y cyflawnir eich dymuniadau personol.

Gan fod anghenion yn newid dros y blynyddoedd, bydd y rhan fwyaf o Cynhadledd Ardaloedd Genhadaeth (CAG) yn annog gadael rhoddion mewn ewyllysiau ar gyfer dibenion cyffredinol yr Ardal Genhadaeth / eglwys yn hytrach nag ar gyfer diben cyfyngedig.

Fodd bynnag, os hoffech weld defnyddio'r rhodd ar gyfer maes sydd o ddiddordeb personol i chi yn yr eglwys (er enghraifft, cerddoriaeth, adeiladau, plant a phobl ifanc, y genhadaeth dramor neu gymorth tramor) gallwch nodi hynny yn eich Llythyr Dymuniadau. Pan ddaw'r amser, bydd y CAG yn trafod y ffyrdd posibl o ddefnyddio'ch rhodd â'ch ysgutorion gan ystyried eich Llythyr Dymuniadau a blaenoriaethau eich eglwys ar y pryd.

Gallwch ddefnyddio'r templed Llythyr Dymuniadau ar y dudalen nesaf i rannu eich dymuniadau personol.

Bydd cynnwys y Llythyr Dymuniadau'n dibynnu ar eich amgylchiadau personol. Dylech fod yn ofalus nad yw eich Llythyr Dymuniadau'n cynnwys unrhyw beth a allai wrthddweud unrhyw beth sydd yn eich Ewyllys.

Gallwch ysgrifennu neu deipio eich Llythyr Dymuniadau eich hun. Dylid ei ysgrifennu mewn iaith syml ac eglur, ei lofnodi a'i ddyddio gennych chi a'i gyfeirio at eich ysgutorion. Nid oes iddo rym cyfreithiol ac nid oes angen ei lofnodi gan dystion.

Gallwch hefyd nodi math neu ffurf yr angladd a hoffech, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddiadau penodol ynghylch y gwasanaeth.

# Templed Llythyr Dymuniadau

I'm hysgutorion / fy nheulu / fy ymddiriedolwyr / bwy bynnag a fynno wybod

Yr wyf fi,____________________________________________(enw) sydd yn byw yn

__________________________________________________________(cyfeiriad)

yn dymuno datgan fy nymuniadau parthed fy rhodd i elusen â'm dewisiadau parthed fy angladd.

Deallaf na allaf gyfyngu ar eich gweithredoedd, ond gofynnaf i chi ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut y bydd fy rhodd i elusen yn cael ei ddefnyddio:

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

Nid yw'r Llythyr Dymuniadau hwn yn newid nac yn diddymu fy Ewyllys.

Fy nymuniadau parthed fy Angladd yw:____________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

__________________________________________________________(dyddiad)

Llofnod__________________________________________________(eich llofnod)